# Cymhwyso Technegau Ymchwil Weithredol i Wella Gwasanaethau – Mamolaeth: Mynediad Uniongyrchol at Fydwraig

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk

Crynodeb o'r Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 83/2014

1. Roedd y prosiect arddangos yn un o'r prosiectau a ariannwyd o dan Raglen Llywodraeth Cymru i Wneud y Defnydd Gorau o Ddata Presennol. Cynhaliwyd y prosiect arddangos rhwng 2011 a 2013 ac mae'n ymwneud â Mynediad Uniongyrchol at Fydwraig.

2. Yn rhan o'r prosiect Mynediad Uniongyrchol at Fydwraig, byddai mamau sy'n disgwyl yn cael eu hannog i weld bydwraig yn hytrach na'u Meddyg Teulu fel pwynt cyswllt cyntaf â gwasanaethau mamolaeth. Byddai hyn yn golygu y gallai negeseuon iechyd cyhoeddus gael eu cyfleu'n gynharach, gan wella canlyniadau o bosibl i'r fam a/neu ei phlentyn.

**Nodau**

3. Dangos, trwy enghreifftiau, y cyfraniad y gall Ymchwil Weithredol ei wneud at y sylfaen dystiolaeth a chynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru (LlC) mewn materion optimeiddio gwasanaethau e.e. defnyddio dulliau modelu cyfrifiadurol i efelychu gwasanaethau er mwyn creu senarios "beth os" i brofi effaith gwahanol ddewisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau heb gynnal arbrawf 'bywyd go iawn' drud.

4. Roedd y prosiect arddangos yn ceisio defnyddio data Genedigaethau Byw y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a barn arbenigol gan ymarferwyr i archwilio'r effaith bosibl ar ddarparu gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru pe byddai menywod beichiog yn defnyddio'r fydwraig yn hytrach na'r Meddyg Teulu fel pwynt cyswllt cyntaf.

5. Roedd yr astudiaeth yn ceisio darparu tystiolaeth i helpu llunwyr polisi i gyfleu'r newid i 'Mynediad Uniongyrchol at Fydwraig' i ymarferwyr.

6. O fewn cwmpas cyfyngedig prosiect arddangos, nid oedd yn bosibl archwilio pa un a gafwyd canlyniadau iechyd gwell i'r fam neu ei phlentyn.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy
E·S·R·C ECONOMIC & SOCIAL RESEARCH COUNCIL

## Methodoleg

7. Roedd y prosiect arddangos yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth, ymarfer casglu data a datblygu modelau efelychu ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) yng Nghymru.

8. Mae pob BILl yn storio data mamolaeth yn electronig, ond nid lefel y manylion a fyddai wedi bod yn ofynnol ar gyfer y Prosiect hwn. Er bod gan bob un o'r 35,000+ o fenywod sy'n rhoi genedigaeth yng Nghymru bob blwyddyn set o Nodiadau Mamolaeth Cymru Gyfan ysgrifenedig, nid oedd y data hwn ar gael yn electronig. Gan nad oedd data electronig ar gael yn cynnwys y lefel briodol o fanylion ar gyfer y prosiect hwn, casglwyd barn arbenigol am y 'llwybr mamolaeth' y mae menyw yn ei ddilyn. Casglwyd gwybodaeth gan Benaethiaid Bydwreigiaeth pob BILl yng Nghymru, obstetregydd ymgynghorol, Meddyg Teulu arbenigol a rheolwyr radioleg.

9. Cafwyd data Genedigaethau Byw yr ONS ar lefel gyfanredol ar gyfer pob BILl yn 2009-2011.

10. Datblygwyd efelychiadau cyfrifiadurol ar gyfer pob BILl, yn cynrychioli llwybr menyw feichiog trwy wasanaethau mamolaeth fe'i y'i hamlinellir yng nghanllawiau NICE ar gyfer gofal cyn geni. Crëwyd dau fodel ar gyfer pob BILl; roedd y model cyntaf yn cynrychioli'r sefyllfa bresennol, lle mae cyfran o fenywod beichiog yn mynd at eu bydwraig fel pwynt cyswllt cyntaf â gwasanaethau mamolaeth, a'r gweddill yn mynd at eu Meddyg Teulu; roedd yr ail yn cynrychioli'r sefyllfa pe byddai pob menyw feichiog yn mynd at eu bydwraig wrth geisio gofal am y tro cyntaf. Datblygwyd y model gan ddefnyddio pecyn o'r enw SIMUL8. Gellir defnyddio'r model i weld faint o fenywod sy'n aros am bob math o apwyntiad a sgan cyn geni ym mhob BILl ar adeg benodol yn y llwybr. Gellir defnyddio'r model hefyd i amlygu a oes unrhyw dagfeydd posibl yn y system neu a oes unrhyw faes sy'n gweithio'n agos i'w gapasiti.

## Canfyddiadau

11. Ni roddodd yr adolygiad o lenyddiaeth a gynhaliwyd yn rhan o'r prosiect hwn lawer o dystiolaeth ryngwladol o fydwragedd yn gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf. Yr unig wledydd lle y defnyddiwyd y dull hwn oedd yr Alban a Gwlad yr Iâ, ac roedd y Ffindir wedi'i ddefnyddio'n hanesyddol ond nid mwyach. Ni roddodd yr adolygiad o lenyddiaeth dystiolaeth o fodelau efelychu blaenorol yn y maes hwn. Fodd bynnag, darganfuwyd bod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn datblygu model efelychu ar gyfer yr Adran Iechyd i ystyried yr effaith ar eni

baban pe byddai gofal bydwraig un i un yn cael ei gyflwyno ym mhob lleoliad (gofal dan arweiniad bydwraig ac ymgynghorydd). Ni chwblhawyd prosiect yr NAO mewn pryd i gynnwys y canfyddiadau yn yr adolygiad hwn, ond roedd trafodaethau â dadansoddwyr yr NAO yn cefnogi'r ymagwedd a ddefnyddiwyd yn y Prosiect hwn.

12. Dangosodd y prosiect y gellir defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferwyr arbenigol i ddatblygu efelychiad hyd yn oed lle nad oes data perthnasol ar gael o gwbl yn electronig neu lle nad yw ar gael i'r lefel sy'n ofynnol i lywio'r model.

13. Dangosodd yr astudiaeth fod model efelychu'n gallu darparu rhith-gynrychiolaeth ddefnyddiol o system er mwyn trafod a chymharu effeithiau gwahanol ddewisiadau ar gyfer darparu gwasanaethau.

14. Dangosodd y prosiect y gellir defnyddio model efelychu i ateb cwestiynau "beth os" fel 'beth fyddai'r effaith ar ddarparu gwasanaethau mamolaeth pe byddai'r holl fenywod beichiog yng Nghymru yn mynd at fydwraig fel eu pwynt cyswllt cyntaf â gwasanaethau mamolaeth?'

15. Cyflwynwyd y modelau efelychu i ymarferwyr a dadansoddwyr a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect (e.e. Cyfarfod Grŵp Cynghori Penaethiaid Bydwreigiaeth, Cyfarfod Herio LlC) ac i gynulleidfaoedd allanol mewn Cynadleddau yn y Deyrnas Unedig a Chynadleddau Rhyngwladol. Mae'r adborth o'r digwyddiadau hyn wedi awgrymu bod natur weledol y modelau efelychu wedi helpu i ennyn diddordeb amrywiaeth o gynulleidfaoedd, gan gynnwys clinigwyr a llunwyr polisi.

16. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod cryn dipyn o amrywiaeth ar draws BILlau o ran a yw menywod yn tueddu i ddefnyddio eu Meddyg Teulu neu fydwraig fel pwynt cyswllt cyntaf â gwasanaethau mamolaeth ar hyn o bryd. Yn ystod cyfnod yr astudiaeth, roedd y rhan fwyaf o fenywod yn ardaloedd BILlau Betsi Cadwaladr, Powys ac Abertawe Bro Morgannwg yn cysylltu â'u bydwraig yn gyntaf, tra bod menywod yn ardaloedd BILlau Caerdydd a'r Fro, Aneurin Bevan, Hywel Dda a Chwm Taf yn tueddu i gysylltu â'u Meddyg Teulu.

17. Mae'r modelau efelychu'n dangos, pe byddai Mynediad Uniongyrchol at Fydwraig yn cael ei gyflwyno'n gwbl lwyddiannus ledled Cymru, y byddai bydwragedd yn gweld oddeutu 65% o fenywod beichiog yn gynharach yn eu beichiogrwydd, gan ganiatáu iddynt gyfleu negeseuon iechyd cyhoeddus pwysig yn gynharach. Byddai'r effaith hon yn fwy amlwg yn ardaloedd BILlau

Caerdydd a'r Fro, Hywel Dda, Cwm Taf ac Aneurin Bevan, lle mae cyfran fawr o fenywod beichiog yn defnyddio eu Meddyg Teulu fel pwynt cyswllt cyntaf â gwasanaethau mamolaeth.

18. Byddai amser apwyntiadau a oedd yn cael ei ddefnyddio gan fenywod beichiog sy'n mynd at Feddyg Teulu fel pwynt cyswllt cyntaf hefyd yn cael ei ryddhau i'w ddefnyddio gan gleifion eraill. Cyfrifwyd yn fras y gallai Mynediad Uniongyrchol at Fydwraig ryddhau amser apwyntiadau a oedd yn gyfwerth â rhwng 3 a 4 Meddyg Teulu amser llawn ledled Cymru.

**Y Camau Nesaf**

19. Roedd y prosiect arddangos yn dibynnu'n drwm ar ddata a gasglwyd gan yr arbenigwyr bydwreigiaeth, obstetregydd ymgynghorol a radiolegwyr gan nad oedd data mamolaeth digon manwl ar gael yn electronig. Fodd bynnag, pe byddai'r data electronig priodol yn dod ar gael yn y dyfodol, gellid ei gynnwys yn y modelau i'w gwneud yn fwy realistig.

20. Rhennir y canfyddiadau'n ehangach mewn digwyddiadau a chynadleddau priodol.

21. Bydd yr heriau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses arddangos a manteision defnyddio dulliau Ymchwil Weithredol i lywio optimeiddio gwasanaethau yn cael eu harchwilio'n fanylach mewn adroddiad Gwersi a Ddysgwyd, a fydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.

**Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru**


**Awduron:**

Dr Tracey England

Cymrawd Ymchwil, Llywodraeth Cymru

Cydymaith Ymchwil, Prifysgol Caerdydd a Modelydd Mathemategol, Yr Uned Fodelu, ABCi

Sarah Lowe

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol, Llywodraeth Cymru

**Cyswllt:**

Sarah Lowe

Rhif ffôn: 029 2082 6229

E-bost: sarah.lowe@wales.gsi.gov.uk



ISBN 978-1-4734-2234-6

19 Medi 2014



© Hawlfraint y Goron 2014